

**Cyfeirnod:** IR825

**Dyddiad cyhoeddi:** 26 Mai 2022

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 5 Mai 2022, lle gofynnoch am wybodaeth mewn perthynas â buddsoddiadau a thrafodion ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Gallwch weld gwybodaeth sy'n dod o fewn cwmpas eich cais fel a ganlyn:

Ein crynodeb Archwilio blynyddol:

[https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/cab\\_cbasp.pdf](https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/cab_cbasp.pdf)

Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol:

<https://audit.wales/cy/publication/cyngor-bwrdeistref-sirol-pen-y-bont-ar-ogwr-asesiad-o-gynaliadwyedd-ariannol-1>

Ein hadroddiad archwilio cyfrifon 2020/21:

<https://www.bridgend.gov.uk/media/11451/statement-of-accounts-2020-21-cymraeg-v2.pdf> (Ar gael ar wefan y Cyngor)

Yr offeryn data cynaliadwyedd ariannol:

<https://www.audit.wales/our-work/data-tools>

Yn unol â hynny, mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth hon yn rhesymol hygyrch i chi drwy ddulliau eraill ac felly mae wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu o dan adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae hwn yn eithriad absoliwt, sy'n golygu nad oes gofyniad i gynnal prawf lles y cyhoedd.

O ran gwybodaeth arall yr ydym yn ei chadw a allai ddod o fewn cwmpas eich cais, fy marn i yw bod hon wedi'i heithrio yn rhinwedd adran 44 (1)(a) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, sy'n darparu bod gwybodaeth wedi'i heithrio os gwaherddir yr awdurdod cyhoeddus sy'n ei chadw rhag ei datgelu (ac eithrio o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth) gan unrhyw ddeddfiad neu o dan unrhyw ddeddfiad. Mae adran 54 (1)(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi 'cyfyngiad ar ddatgelu gwybodaeth' - a thrwy hynny, yn gwahardd datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â pherson neu gorff arall a geir yn ystod archwiliad neu astudiaeth, ac

eithrio o dan yr amodau a nodir yn isadran (2). Mae datgelu y tu allan i'r amgylchiadau a nodir yn a54(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn drosedd. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol ac yn absoliwt, sy'n golygu nad oes angen cymhwyso prawf budd y cyhoedd.

Efallai y byddwch am gysylltu â'r Cyngor yn uniongyrchol, i ofyn am wybodaeth y mae'n ei chadw sy'n ymwneud â 'thrafodion ariannol'.

Os nad ydych yn fodlon ar y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiadau mewnol at Martin Peters, Pennaeth y Gyfraith a Moeseg, drwy e-bostio [martin.peters@audit.wales](mailto:martin.peters@audit.wales) neu drwy'r post i Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

Rhaid i mi hefyd eich cyfeirio at adran 50 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, y gallwch wneud cais o dani i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad ynghylch a ymdriniwyd â'ch cais yn unol â'r Ddeddf ai peidio. Manylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire SK9 5AF  
e-bost : [casework@ico.gsi.gov.uk](mailto:casework@ico.gsi.gov.uk)  
Ffôn: 01625 545745  
Ffacs: 01625 524510

Fodd bynnag, dylech nodi na fydd y Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn ymchwilio i gŵyn hyd nes y bydd y broses adolygu mewnol wedi dod i ben. Ceir rhagor o ganllawiau ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: <https://ico.org.uk/>

Os oes unrhyw ymholiadau gennych, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,  
Y Swyddog Gwybodaeth